

Gofalu am eich Casgliadau

gan Iwan Bryn James

O'r eiliad y cyhoeddir unrhyw gyfrol, mae ei dirywiad yn anochel. Fel ninnau, organig yw cyfansoddiad pob llyfr, ac felly, mae'n cynnwys yr elfennau hynny sy'n sicr o arwain at ei ddistryw ryw ddydd. Gall y broses hon gael ei chyflymu'n arw gan amodau amgylcheddol anffafriol, ymosodiadau gan bryfed, llwydni, difrod dŵr a llu o resymau eraill. Ond o bosib, mewn modd diarwybod, pobl fel chi a fi yw prif ddifrodwyr llyfrau!

Ceisïaf yma ddatgelu prif elynion y llyfr ynghyd â chynnig nifer o ganllawiau syml i estyn yn sylweddol oes ein casgliadau a'n gwrthrychau gwerthfawr. Mae'r wybodaeth a'r argymhellion a geir yma wedi eu seilio ar brofiad helaeth ym maes cadwraeth llyfrau a deunyddiau archifol yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Traul

Gallwch osgoi llawer o'r difrod a ddaw i ran y llyfr trwy ei drin a'i drafod yn fwy gofalus gan ddefnyddio synnwyr cyffredin. Peidiwch byth â thynnu llyfr o'r silff gerfydd top y meingefn. Bydd hyn yn siŵr o arwain at dynnu'r meingefn yn rhydd, yn enwedig os yw deunydd y llyfr wedi breuo ac os yw'r llyfrau wedi eu gosod yn rhy dynn at ei gilydd. Er mwyn cael gafael ar lyfr sydd ar silff, dylid gwthio'r ddau lyfr sydd o boptu, i gefn y silff a chydio yng nghanol y llyfr dan sylw heb roi straen ar y meingefn. Unwaith bydd y llyfr yn eich dwylo rhaid cofio troi'r tudalennau'n ofalus a chynnal y llyfr mewn modd nad yw'n rhoi straen ar y rhwymiad. Gall bwyd a diod wneud difrod mawr i lyfrau, fel yn amlwg y gall dwylo budron. Pwynt pwysig arall i'w gofio yw'r ffaith fod bysedd glân yr olwg yn gallu llygru a staenio papur drwy ryddhau asidau brasterog (fatty acids), ac o'r herwydd, gyda chyfrolau prin ac yn arbennig ffotograffau a darluniau gwerthfawr, byddai'n ddoeth gwisgo menyg cotwm i atal mwy fyth o ddifrod.

Golau

Er mor bwysig yw golau i ni gael gweld ein darnau celf ac i ddarllen a gwerthfawrogi ein llyfrau, mae i olau ochr ddinistriol iawn. Fel y gwyddom wrth edrych ar feingefn sawl llyfr ar ein silffoedd, mae golau'n pylu lliwiau. Nid yw teitl *Marged* gan T. Glynne Davies i'w weld bellach ar siaced lwch fy nghopi i o'r llyfr gan fod goleuni wedi ei gannu, tra bod ochrau'r llyfr sy'n cael eu cysgodi gan lyfrau eraill yn parhau yn goch llachar. Digwydd hyn oherwydd effaith niweidiol ymbelydredd uwchfioled yr haul a golau artiffisial anaddas sydd, nid yn unig yn pylu lliwiau, ond hefyd yn breuo deunyddiau fel lledr, lliain a phapur.

Mewn amgueddfeydd a llyfrgelloedd, ymdrechir i reoli lefel y golau. Yn ein cartrefi fodd bynnag, gall lefel y golau fod yn llawer uwch. Mesurir lefel y golau mewn unedau a elwir yn 'lux'. Argymhellir lefel o 50 lux ar gyfer arddangos gwaith celf ar bapur a dim mwy na 150 lux ar gyfer peintiadau. Gall darlun neu lyfr sy'n derbyn golau haul uniongyrchol yn eich cartref fod yn agored i gymaint â 10,000 lux, sef 200 gwaith y lefel a argymhellir.

Tymheredd a Lleithder

Yn ddefnyddol, mae llyfr angen tymheredd sefydlog o rhwng 16°C a 18°C a lleoliad lle

mae lleithder cymharol (RH – relative humidity) yr awyr rhwng 40% a 55%. Bydd hyn yn sicrhau nad yw'r papur na'r rhwymiad yn rhy llaith nac yn rhy sych. Os yw'r amgylchedd yn rhy llaith ac yn rhy gynnes (fel mewn ystafell ymolchi neu gegin lle ar adegau ceir RH o 80% neu fwy), gall sborau llwydni egino gan ddifrodi, staenio a gwanhau eich llyfrau. Ar y llaw arall, mewn amgylchedd sy'n rhy sych (fel sy'n gallu digwydd mewn tŷ â gwres canolog yn ystod y gaeaf lle mae'r RH yn gallu bod yn 30% neu is), gall eich llyfrau freuo yn sylweddol. Ffactor arall sy'n rhoi straen mawr iawn ar lyfr yw newidiadau sylweddol, sydyn a chyson yn y tymheredd a'r lleithder. Wrth i hyn ddigwydd, bydd papur a lledr yn chwyddo ac yn crebachu am yn ail wrth ennill a cholli dŵr gan wanhau y papur a chracio'r lledr. Digwydd hyn gan amlaf mewn safleoedd uwchben rheiddiaduron sy'n oeri'n gyflym ar ôl cael eu diffodd neu mewn atig sy'n gallu bod yn boeth iawn yn ystod y dydd ac yn oer iawn yn ystod y nos. Rhaid cofio bod y mwyafrif o adweithiau cemegol yn dyblu gyda phob cynnydd o tua 10°C yn y tymheredd. Drwy symud eitemau o'r atig neu o seler laith i amgylchedd mwy ffafriol, gallwch estyn oes gwrthrychau papur gymaint â dengwaith.

Pan ddaw llyfr neu wrthrych sydd â llwydni arno i'ch meddiant, dylech ei frwsio'n lân yn yr awyr agored gan sicrhau nad ydych yn anadlu'r sporau. Os yw'r llyfr yn parhau'n llaith, dylid ei sychu drwy ei osod i sefyll am gyfnod gyda'r tudalennau ar agor. Wedi gwneud hyn, ac o gadw'r llyfr




Diolfalwch Dyn.

dan yr amgylchiadau cywir, ni ddylai'r llwydni ailymddangos.

Llygredd

Un o brif elynion y llyfr yw llygredd o'r awyr. Gall llwch a baw gynnwys elfennau o ddadfeiliad cemegol a sborau llwydni, ac felly, mae glanhau a dystio ein llyfrau a'n



Effaith golau uwchfioled.



Lledr wedi'i fwyta gan bryfed arian.